# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CYSAG) / Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYSCGM)

## Adroddiad Blynyddol 2023- 2024



# CYSAG

## Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Castell-nedd Port Talbot (CYSAG)
## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 - 2024


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair gan Gadeirydd y CYSAG/CYSCGM | 3 |
| **Adran 1: Gwybodaeth am y CYSAG/CYSCGM** | **4-5** |
| 1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYSCGM | 4 |
| 1.2 Cyfansoddiad y CYSAG/CYSCGM | 4 |
| 1.3 Aelodaeth y CYSAG/CYSCGM | 4 |
| 1.4 Swyddogaethau'r CYSAG/CYSCGM | 4 |
| 1.5 Cofnodion cyfarfodydd y CYSAG/CYSCGM | 5 |
| 1.6 Dosbarthu'r Adroddiad | 5 |
| **Adran 2: Cyngor ar Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd A Moeseg** | **6-10** |
| 2.1 Y maes llafur cytunedig lleol | 6 |
| 2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | 6 |
| 2.3 Cyfansoddiad y CYSAG/CYSCGM | 7 |
| 2.4 Datblygiadau'r Cwricwlwm | 8 |
| 2.5 Arholiadau | 9 |
| 2.6 Adroddiadau Arolygu Ysgolion | 9 |
| 2.7 Addysgeg ac adnoddau | 9-10 |
| **Adran 3: Cyngor ar Addoli ar y Cyd** | **10** |
| 3.1 Arolygiad ysgol | 10 |
| 3.2 Ceisiadau i Benderfynu Arnynt | 10 |
| 3.3 Ymweliadau Ysgol | 10 |
| **Adran 4: Materion eraill** | **11-13** |
| 4.1 Noson Coffáu'r Holocost 2024 | 11 |
| 4.2 CCYSAGC | 11-12 |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| 4.3 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol/Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (PYCAG/PYCCGM) | 12-13 |
| 4.4 Hyfforddiant ar gyfer Aelodau CYSAG/CYSCGM | 13 |
| Atodiad 1: **Aelodaeth y CYSAG ar gyfer 2023-2024** | **14** |
| **Atodiad 2: Amserlen ac Agenda Cyfarfodydd** | **15** |
| **Atodiad 3: Dosbarthu'r Adroddiad** | **16** |


## Rhagair gan Gadeirydd CYSAG/CYSCGM Castell-nedd Port Talbot

Y Cynghorydd Nia Jenkins

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn gan CYSAG Castell-nedd Port Talbot, sy'n amlinellu ein gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2023 - 2024.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol ac mae arnom ddyled enfawr o ddiolch i waith yr athrawon yn yr awdurdod, yr Is-gadeirydd, Swyddogion y Cyngor a'n haelodau cyfetholedig.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi trafod a chynllunio'r gwaith parhaus, gan fynd i'r afael â'r datblygiadau ym maes Addysg Grefyddol yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn ein hysgolion uwchradd. Rydym hefyd wedi cael y pleser o groesawu sawl gwestai a oedd wedi rhannu eu gwaith â ni - gan gynnwys adnoddau sydd ar gael i wella profiad ein pobl ifanc wrth drafod Cristnogaeth a ffyddau eraill.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd wrth i ni edrych ymlaen at ein Noson Coffáu'r Holocost, yr ydym yn haeddiannol falch ohoni.

# Adran 1:  Gwybodaeth am y CYSAG/CYSCGM

## 1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYSCGM

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol (ALl) sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) gyda'u hardal leol.

## 1.2 Cyfansoddiad y CYSAG/CYSCGM

Bydd y CYSAG/CYSCGM yn cynnwys personau a benodir gan yr awdurdod lleol i gynrychioli, yn eu tro:

- Grŵp A – grŵp o bersonau i gynrychioli: enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau; argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol. Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru, wrth benodi personau o'r fath, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod nifer yr aelodau a benodir i'r pwyllgor i gynrychioli crefydd, enwad neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, cyn belled ag y bo'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r pwyllgor yn effeithlon, yn adlewyrchu cryfder y grefydd, yr enwad neu'r argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal.
- Grŵp B – grŵp o bersonau i gynrychioli'r cymdeithasau hynny sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr awdurdod, gael eu cynrychioli, gan ystyried amgylchiadau'r ardal
- Grŵp C – grŵp o bersonau i gynrychioli'r awdurdod

Gall y CYSAG/CYSCGM gynnwys aelodau cyfetholedig hefyd.

## 1.3 Aelodaeth y CYSAG/CYSCGM

Nodir y rhestr o aelodau CYSAG/CYSCGM Castell-nedd Port Talbot yn Atodiad 1. Gwnaed pob ymdrech i geisio cynrychiolaeth o'r holl gymunedau crefyddol a nodwyd a'r rhai anghrefyddol, ond mae'r CYSAG/CYSCGM wedi cael anhawster dod o hyd i gynrychiolaeth o'r fath.  Mae Ymgynghorydd y CYSAG/CYSCGM wedi cysylltu â chyrff arweiniol y sefydliadau hyn ac yn parhau i aros am ymatebion. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y flwyddyn academaidd nesaf i ddatblygu'r amrywiaeth yn CYSAG/CYSCGM Castell-nedd Port Talbot ymhellach.

### 1.4 Swyddogaethau'r CYSAG/CYSCGM

Swyddogaeth y CYSAG/CYSCGM yw cynghori'r Awdurdod Lleol (ALl) ar y materion sy'n gysylltiedig â darpariaeth dysgu ac addysgu, dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, naill ai mewn perthynas ag elfennau gorfodol CGM, neu'r addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir sef CGM dewisol sy'n cynnwys:

- dulliau addysgu
- y dewis o ddeunyddiau addysgu
- darpariaeth hyfforddiant athrawon

Yn ogystal, gall y CYS gynghori ar unrhyw fater arall y gall yr awdurdod lleol ei gyfeirio at y cyngor neu fel y gwêl y cyngor yn dda, megis:

- cynghori'r ALl ar Addoli ar y Cyd
- Datblygu ac adolygu'r maes llafur cytunedig ar gais yr ALl.

O dan Ddeddfau Addysg, mae'n rhaid i'r ALl ddarparu trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion. Bydd y CYS ar CGM felly'n ystyried cwynion ynghylch y ddarpariaeth CGM neu'r diffyg darpariaeth.

### 1.5 Cofnod o gyfarfodydd y CYSAG/CYSCGM

Cynhaliwyd tri chyfarfod y CYSAG/CYSCGM yng Nghanolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan, Elmwood Road, Baglan, Port Talbot yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024

- Dydd Mawrth 17 Hydref 2023
- Dydd Mawrth 27 Chwefror 2024
- Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024

Mae cofnod o brif eitemau'r agenda a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd i'w weld yn Atodiad 2.

### 1.6 Dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol

Mae copïau o'r adroddiad hwn wedi'u dosbarthu i'r cyrff/sefydliadau a restrir yn Atodiad 3.

## Adran 2: Cyngor a roddwyd gan y CYSAG/CYSCGM

**2.1 Y maes llafur cytunedig lleol**

Mabwysiadwyd maes llafur cytunedig Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 2023 ac roedd yn parhau'n gyfredol yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Parhaodd Blwyddyn 9 ac uwch i ddilyn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol fel maes llafur cytunedig Castell-nedd Port Talbot, a bydd ysgolion yn parhau i ddefnyddio hwn nes bod y Cwricwlwm i Gymru wedi'i gyflwyno'n llawn a CGM wedi'i sefydlu mewn ysgolion uwchradd.

Mae maes llafur cytunedig Castell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau statudol CGM y gellir eu gweld ar Hwb. Sefydlwyd y maes llafur cytunedig yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cynulliwyd cynhadledd Maes Llafur Cytunedig rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022 i sicrhau cydweddiad â holl ddeddfwriaeth LlC.

Yn ystod cyfnod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, wrth i ysgol neu leoliad uwchradd 'fabwysiadu' Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn arbennig, bydd maes llafur cytunedig Castell-nedd Port Talbot yn disodli hen faes llafur cytunedig Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r maes llafur cytunedig yn nodi'r manylion ynghylch dysgu ac addysgu yn yr elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer yr holl ysgolion a lleoliadau a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ddogfen wedi'i mabwysiadu fel y maes llafur cytunedig ar gyfer CGM yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Mabwysiadwyd y ddogfen gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel y maes llafur cytunedig ar gyfer CGM ym mis Ionawr 2023, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r awdurdod lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ym mis Rhagfyr 2022. Mae copïau o faes llafur cytunedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi'u dosbarthu i'r holl ysgolion yn y sir ac maent ar gael gan Glerc y CYSAG.

**2.2. Safonau mewn Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Rhoddodd y CYSAG/CYSCGM gyngor gwerthfawr i'r ALl ar safonau Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddata perfformiad ysgol ac adrodd am ddata asesu Cyfnod Allweddol Tri wedi newid y ffordd y mae'r CYSAG/CYSCGM wedi gallu monitro perfformiad ysgol mewn AG/CGM yn y sector uwchradd.

Mae'r CYSAG/CYSCGM wedi parhau i droi at adroddiadau Estyn am dystiolaeth o safonau'r ddarpariaeth AG/CGM, ac ar y cyfan, nid oes materion wedi'u codi mewn perthynas ag AG/CGM neu Addoli ar y Cyd. Yn gyffredinol, mae adroddiadau wedi bod yn gadarnhaol am ddatblygiad ysbrydol a moesol dysgwyr. Cydnabyddir bod un adroddiad wedi nodi bod ysgolion yn araf yn ymateb i rai o'r meysydd gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru.

### 2.3 Cyfansoddiad y CYSAG/CYSCGM

Mae gan yr Awdurdod Lleol (ALl) ddyletswydd gyfreithiol i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYSCGM). Dywed y ddeddfwriaeth fod angen i'r CYSCGM egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.

Roedd angen i Gastell-nedd Port Talbot sefydlu CYS yn unol â'r gofynion deddfwriaethol. Mae angen cyfansoddiad i sicrhau bod CYS yn gweithredu'n unol â deddfwriaeth ac yn cefnogi'r ALl. Mae'r CYSAG/CYSCGM wedi datblygu cyfansoddiad sy'n briodol i Gastell-nedd Port Talbot sydd hefyd yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol. Cwblhaodd y Swyddog Cefnogi CGM y camau canlynol i sicrhau datblygiad y cyfansoddiad:

- Gwneud ymchwil i'r ddeddfwriaeth
- Gwneud ymchwil i gyfansoddiadau Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog sydd mewn bod yng Nghymru a thu hwnt i'w cynorthwyo
- Arweiniad gan CCYSAGC ar ysgrifennu cyfansoddiad.
- Cael cyngor a chefnogaeth gan Joanna Stevens (Prif Gyfreithiwr - Masnachol a Llywodraethu, Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) i sicrhau gofynion cyfreithiol cywir, cysondeb iaith a chydnawsedd â dogfennau perthnasol eraill yn CNPT.

Roedd cynnwys y cyfansoddiad yn canolbwyntio ar:

- **Esbonio swyddogaeth y Cyngor (CYS)** - cynghori Cyngor Bwrdeistref Sirol CNPT ar faterion sy'n gysylltiedig â darpariaeth dysgu ac addysgu Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru a'r hen Gwricwlwm. Hefyd, gynghori'r AALl ar faterion eraill sydd o fewn cwmpas cynnwys unrhyw gwynion. Daw Addoli ar y Cyd o dan gylch gwaith CYS hefyd. Mae dyletswydd ar CYS i lunio adroddiad blynyddol yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Cynhwysir y **Cylch Gorchwyl** i gynorthwyo gyda'r uchod sy'n egluro cylch gwaith CYS sy'n nodi'r gofynion deddfwriaethol ar sefydlu CYS, a'i waith.
- Mae **cyfansoddiad ac aelodaeth** wedi'u cynnwys sy'n adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Mae CYS yn cynnwys 3 grŵp fel y gellir eu gweld yn yr wybodaeth.

Mae manylion y mathau o aelodau wedi'u cynnwys ond mae'n dweud nad yw'r rhestrau wedi'u cyfyngu. Mae 6 aelod o Grŵp C yn aelodau a benodwyd gan yr ALl. Nid yw rôl aelodau na'r hyn a ddisgwylir ganddynt wedi'u cynnwys. Mae côd ymddygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodiad. Mae esboniad ynghylch cael aelodaeth, terfynu aelodaeth a chael gwared â rhywun o CYS wedi'i gynnwys Mae unrhyw hawliau i hawlio treuliau ar gyfer gwaith CYS wedi'u cynnwys hefyd.

- Mae adran ar weithdrefnau wedi'i chynnwys sy'n egluro sut a phryd y bydd cyfarfodydd yn cael eu galw a'u cynnal a gosod yr agenda. Yn ogystal, mae esboniad ar benodi cadeirydd ac is-gadeirydd yn ogystal â gweithdrefnau pleidleisio. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am rôl a dyletswyddau'r Swyddog Cefnogi CGM yn y CYS a chlerc y CYS.

Cyflwynwyd y cyfansoddiad i'r Pwyllgor Addysg cyn ei gyflwyno i'r cyngor llawn ac fe'i mabwysiadwyd gan y cyngor. Mae bellach wedi'i fabwysiadu a'r roi ar waith gan y CYSAG/CYSCGM.

**2.4 Datblygiadau'r Cwricwlwm**

Mae’r CYSAG/CYSCGM wedi derbyn diweddariadau tymhorol gan y Swyddog Cefnogi CGM ynghylch datblygiadau'r cwricwlwm fel y maent yn ymwneud ag AG/CGM ac Addoli ar y Cyd. Mae’r CYSAG/CYSCGM wedi datblygu dealltwriaeth o'u diben a'u rôl fel pwyllgor cyngor. Datblygwyd dealltwriaeth gyffredin o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas ag AG/CGM. Canolbwyntiwyd ar newid enw, y newidiadau yn y gofynion statudol a statws maes llafur cytunedig lleol. Mae’r CYSAG/CYSCGM wedi cael gwybod am y newidiadau i'r cwricwlwm o ran CGM ac maent wedi cael y diweddaraf ar ddatblygiadau gan Lywodraeth Cymru fel iddynt ddigwydd yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae’r CYSAG/CYSCGM wedi cael gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r cymhwyster TGAU o fewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi’u trafod. Maent wedi ystyried y meini prawf cymeradwyo a nodwyd gan Gymwysterau Cymru a'r Meini Prawf Dylunio a gyhoeddwyd gan CBAC, ac maent bellach yn aros am y fanyleb TGAU er mwyn deall manylion cymhwyster TGAU y dyfodol.

Bydd CYSAG/CYSCGM Castell-nedd Port Talbot yn parhau i ddarparu deunydd ategol, yn ogystal â'r maes llafur cytunedig, i gefnogi ymarferwyr yn eu haddysgeg ac wrth iddynt gynllunio'u cwricwlwm, gan gynnig ehangder a dyfnder gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau i ddysgwyr ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r Swyddog Cefnogi CGM wedi rhoi cyflwyniad i benaethiaid cynradd i gefnogi'r ddealltwriaeth gytunedig o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru a sut y gellir ei roi ar waith yn eu lleoliadau. Trafodwyd Addoli ar y Cyd hefyd yn ystod y sesiwn hon. Yn ogystal, mae'r Swyddog Cefnogi CGM wedi parhau i gyflwyno sesiynau ychwanegol i ysgolion ac unigolion o fewn ysgolion, sydd wedi gofyn am gefnogaeth benodol ar gyfer CGM ochr yn ochr â'r rheini sydd wedi gofyn am rywfaint o arweiniad drwy sgyrsiau ar y ffôn neu drwy e-bost.

Mae'r Swyddog Cefnogi CGM yn mynd i'r cyfarfodydd rhwydwaith pynciau uwchradd ar gyfer CGM ac yn cyfrannu atynt. Mae hwn yn gyfle i arweinwyr AG/CGM rannu arfer da,

ymgyfarwyddo â'r adnoddau newydd, datblygu eu dealltwriaeth gyffredin o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, ymateb i ymgynghoriadau perthnasol Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn ogystal â chefnogi ei gilydd gyda dysgu ac addysgu AG/CGM.

Mae CYSAG/CYSCGM Castell-nedd Port Talbot hefyd wedi gweld, ystyried a rhannu ag ysgolion yr adnodd a ddatblygwyd gan CCYSAGC ac a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru sef 'Crefydd, gwerthoedd a Moeseg: beth sy'n newydd?' Repository - Hwb (gov.wales)

Mae'r CYSAG/CYSCGM wedi gwahodd nifer o siaradwyr gwadd i'w cyfarfodydd eleni. Mae hyn yn cefnogi aelodau wrth weld yr hyn sydd ar gael i ysgolion ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i aelodau ymwneud yn feirniadol â darparwyr:

- Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru - rydym hefyd wedi rhoi adborth ar yr adnoddau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.
- Addysgu yn erbyn Islamoffobia
- Solutions not Sides - a gyflwynwyd gan y Swyddog Cefnogi CGM yn dilyn seminarau cyn cynhadledd CCYSAGC

**2.5 Arholiadau**

Drwy Swyddog Cefnogi CGM, bydd y CYSAG/CYSCGM wedi trafod arholiadau Astudiaethau Crefyddol Haf 2024. Yn ogystal, bydd y CYSAG/CYSCGM hefyd wedi trafod, fel a nodir uchod, y newidiadau arfaethedig i gymwysterau TGAU yn y dyfodol. Mae hyn wedi cael ei rannu ag arweinwyr Addysg Grefyddol ar draws y sir.

Nid yw'r CYSAG/CYSCGM yn rhoi adborth ar gyrhaeddiad ysgolion unigol mewn AG/CGM/AC ers y newidiadau i ofynion ysgolion i adrodd am ganlyniadau.

**2.6 Adroddiadau Arolygu Ysgolion**

Mae'r CYSAG/CYSCGM yn ystyried adroddiadau arolygu ac adolygiadau thematig Estyn. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, cyhoeddwyd deuddeg adroddiad, gan gynnwys rhai cynradd, ysgol arbennig, un ysgol gyflawn ac un o ysgol gynradd ffydd. Nodwyd sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiadau ar wybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr am gymunedau ffyrdd gwahanol, amrywiaeth a moesoldeb. Cydnabuwyd bod gofynion addoli ar y cyd yn briodol a'u bod yn dilyn gofynion deddfwriaethol.

**2.7 Addysgeg ac Adnoddau**

Mae Swyddogion Cefnogi Addysg Castell-nedd Port Talbot wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol yn unol ag egwyddor cyfrifolaeth yn y Cwricwlwm i Gymru i bob ymarferydd yn y sir. Yn ogystal, roedd y swyddog cefnogi CGM wedi rhoi cefnogaeth benodol ar gyfer CGM a oedd yn cynnwys:

- Sesiynau ychwanegol ar ddeall y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ac addysgu AG wrth iddo ddod yn CGM.

- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Uwchradd AG/CGM dan arweiniad dau o swyddogion cefnogi addysg y sir, a chyfrannu atynt.
- Cefnogaeth ac arweiniad i arweinwyr AG/CGM Uwchradd ar arholiadau TGAU Astudiaethau Crefyddol yr haf.
- Cyflwyno sesiwn i ddeall newidiadau i ddeddfwriaeth a'r cwricwlwm ar gyfer AG/CGM i athrawon AG/CGM uwchradd yn ystod sesiwn hyfforddiant mewn swydd sirol.
- Rhannu gwybodaeth gyswllt ac arweiniad i ymwelwyr allanol â'r ysgol.
- Diwrnod Cofféu'r Holocost 2024. Rhannwyd adnoddau a rhoddwyd cyfle i gymryd rhan y Noson Cofféu'r Holocost y sir a chystadleuaeth a gynhaliwyd i gyd-fynd â hi.
- Rhannwyd dogfennaeth Estyn, CCYSAGC a Llywodraeth Cymru ar addoli ar y Cyd.
- Rhannwyd manylion yr adnoddau a ddatblygwyd gan CCYSAGC a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Rhannwyd manylion sefydliadau a allai gefnogi profiadau disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.
- Rhannwyd manylion ac adnoddau o gynhadledd CCYSAGC a seminarau cyn ac ar ôl y gynhadledd.

# Adran 3: Cyngor ar Addoli Ar Y Cyd

### 3.1 Arolygiad Ysgol

Gellir gweld manylion adroddiadau arolygu Estyn yn adran 2.6. Fel y CYSAG/CYSCGM rydym wedi sicrhau bod ysgolion yn cael cefnogaeth i fodloni eu gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac i ddarparu profiadau gwerth chweil i ddysgwyr. Wrth i'r CYSAG/CYSCGM fonitro adroddiadau arolygu Estyn, gallwn nodi a chefnogi unrhyw ysgol lle codwyd materion yn ystod yr arolygiad. Ni nodwyd materion sy'n peri pryder mewn arolygiadau Estyn yn y flwyddyn academaidd 2023-24 a rhannodd y CYSAG/CYSCGM unrhyw wybodaeth ac adnoddau addas mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

### 3.2 Ceisiadau i Benderfynu Arnynt

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfynu a ddylid codi'r gofynion i addoli ar y cyd fod yn Gristnogol yn bennaf neu'n gyfan gwbl.

### 3.3 Ymweliadau Ysgol

Ni chafwyd ymweliadau ag ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24. Hoffai'r CYSAG/CYSCGM ddatblygu'r ymarfer hwn yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dod. Mae'r Swyddog Cefnogi Addysg yn ymweld ag ysgolion yn ôl y galw i gefnogi athrawon gydag addysgu CGM yn y cwricwlwm i Gymru. Mae'r ymweliadau hyn wedi cynnwys:

- Drwy weithio ar y cyd â Swyddogion Cefnogi Addysg, mae hi'n gallu adnabod yr ysgolion hynny y mae angen cefnogaeth arnynt, a rhennir ei manylion ag ysgolion yn ôl y galw.
- Parhau i fynd i gyfarfodydd LLAN lle bo'n berthnasol - cyfarfodydd tymhorol y sir i benaethiaid

- Sesiynau ychwanegol i ysgolion cynradd ar ymgorffori CGM o fewn y cysyniadau fel clystyrau ac ysgolion unigol.
- Hunan-werthuso, sesiwn gwrando ar y dysgwr, drwy lais y dysgwr a chraffu ar lyfrau, ar gais yr ysgol, i ddod i wybod dealltwriaeth dysgwr o'r gwaith a gwblhawyd o fewn Cristnogaeth a'u sesiynau CGM yn eu llyfrau cenhadaeth. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a'u cysylltiad â'r gofynion yn y Cwricwlwm i Gymru.
- Rhannu arteffactau ag ysgolion unigol.
- Cefnogaeth bwrpasol i ysgolion/athrawon unigol lle cynhelir sesiwn â phob athro unigol mewn ysgol i gefnogi eu cynllunio ar gyfer addysgu cysyniadau unigol.
- Cynhaliwyd hyfforddiant llywodraethwyr yn fisol: Wyneb yn wyneb â chadeirydd y llywodraethwyr. Drwy Teams ar gyfer llywodraethwyr.
- Cwrdd â phenaethiaid CGM uwchradd lle bydd y ffocws ar gyflwyno CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, a chydnabod unrhyw gefnogaeth benodol y mae ei hangen a chymwysterau (cyfredol ac yn y dyfodol).

## Adran 4: Materion Eraill

### 4.1 Noson Coffáu'r Holocost 2024

Cynhaliodd y CYSAG/CYSCGM Noson Coffáu'r Holocost lwyddiannus unwaith eto yn Theatr y Dywysoges Frenhinol ar 6 Chwefror. Roedd yn hyfryd unwaith eto gael aelodau'r gymuned Iddewig leol yn bresennol ochr yn ochr â gŵyr a gwragedd pwysig eraill. Thema eleni oedd 'Breuder Rhyddid'. Roedd ysgolion wedi ymwneud yn llawn â'r thema ac roedd yn bleser gweld eu cyfraniadau yn y gwaith celf a gyflwynwyd ar gyfer y gystadleuaeth ac ar y noson. Dylid rhoi canmoliaeth arbennig i ddysgwyr o Ysgol Tairgwaith a gymerodd ran yn yr holl gategorïau cynradd ac i Ysgol Gymraeg Ystalyfera a ganolbwyntiodd eu gwaith celf ar ddarn coffaol gyda'r enillydd yn cynhyrchu darn eithriadol sy'n ysgogi'r meddwl.

Arweiniwyd a llywyddwyd y noson gan uwch-swyddogion o Ysgol Gymraeg Ystalyfera mewn modd proffesiynol a sicrhaodd fod y noson wedi mynd yn ei blaen yn hwylus, o berfformiadau i rannu gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar y thema bob amser. Cyfrannodd deg ysgol ar y noson gyda pherfformiadau unigol, gan gynnwys caneuon a dawnsiau; gan gynnwys dysgwyr o Ysgol Gatholig a Chweched Dosbarth St. Joseph a ddarllenodd y 7 ymrwymiad mewn amrywiaeth o ieithoedd.

### 4.2 CCYSAGC

Mae’r CYSAG/CYSCGM yn parhau i gefnogi gwaith CCYSAGC ac yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae'n ei wneud wrth hyrwyddo AG/CGM ac Addoli ar y Cyd yn genedlaethol;
ac wrth ddatblygu adnoddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae’r CYSAG/CYSCGM hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd tymhorol y mae CCYSAGC yn eu cael â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fel ffordd o sicrhau bod AG/CGM yn parhau'n ganolog i drafodaethau addysgol yng Nghymru.

Mae’r CYSAG/CYSCGM yn cefnogi'r Swyddog Cefnogi CGM i fynd i bob cyfarfod CCYSAGC tymhorol ac mae'n cefnogi aelodau ychwanegol (hyd at dri ohonynt) i fynd iddynt os ydynt yn dewis gwneud hynny. Mae’r CYSAG/CYSCGM yn falch o gefnogi'r Swyddog Cefnogi CGM fel aelod o Bwyllgor Gweithredol CCYSAGC, fel y Cadeirydd diwethaf. Cynhaliwyd pob cyfarfod CCYSAGC drwy Teams a Zoom yn y flwyddyn academaidd 2023-2024, ac eithrio'r cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd ar ddiwedd cynhadledd CCYSAGC yn Wrecsam ym mis Mehefin 2024. Yn ystod y cyfarfod hwn, penodwyd Swyddog Cefnogi CGM Castell-nedd Port Talbot yn Is-gadeirydd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Rhoddir adborth a cheir trafodaeth am gyfarfodydd CCYSAGC yng nghyfarfodydd y CYSAG/CYSCGM. Caiff unrhyw faterion a godwyd gan CCYSAGC sy'n berthnasol i athrawon eu rhannu hefyd drwy e-bost ac mewn cyfarfodydd AG/CGM.

Roedd cynhadledd CCYSAGC a gynhaliwyd yn Wrecsam yn gyfle gwych ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithio. Yn ei rôl yn CCYSAGC, bu'r Swyddog Cefnogi CGM ar gyfer CNPT yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith o drefnu'r gynhadledd a chyflwynodd un o'r eitemau ar y diwrnod ar faes ar y diwrnod. Roedd diwrnod y gynhadledd yn cynnwys:

- Prif Siaradwyr - yr Athro Graham Donaldson, Y Parch. Mary Stallard ac Aelod y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle
- Amrywiaeth o weithdai
- Trafodaeth banel
- Cyflwyno datblygiad ffilm hyrwyddol

Mae recordiadau o lawer o'r uchod ar gael drwy wefan CCYSAGC ac fe'u rhannwyd â holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Yn ogystal, mae CCYSAGC wedi cynnal ystod o seminarau ar-lein cyn ac ar ôl y gynhadledd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyniad i CYS/CYSAG. Beth mae'n rhaid i chi ei wybod?
- Sut beth yw CGM yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar?
- Datblygu empathi drwy stori yn y lleoliad meithrin.
- Sut i fynd ati i gynllunio CGM: Rhoi sylw i ganllawiau CGM

Mae seminarau y gellid fod wedi'u eu recordio wedi cael eu recordio ac mae'r seminarau a gafwyd cyn y gynhadledd bellach ar gael i'w defnyddio. Rhannwyd yr holl fanylion ag ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Caiff seminarau sy'n dilyn y gynhadledd eu cwblhau yn gynnar yn y flwyddyn academaidd nesaf a bydd recordiadau ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn honno.

**4.3 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG/PYCCGM)**

Cynrychiolir CYSAG/CYSCGM ar y PYCAG/PYCCGM gan y Swyddog Cefnogi AG/CGM. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn rhithwir yn y flwyddyn academaidd 2023-2024 drwy TEAMS, ac eithrio cyfarfod yr haf a gynhaliwyd yn Wrecsam i gyd-fynd â chynhadledd CCYSAGC. Drwy'r cyfarfodydd hyn mae’r CYSAG/CYSCGM wedi cael y diweddaraf ar ddatblygiadau AG/CGM ar draws Cymru. Mae'r PYCAG/PYCCGM wedi gweithio'n agos â CCYSAGC ar ddatblygu AG/CGM a chynhadledd CCYSAGC ac mae wedi bod yn rhan o'r

trafodaethau â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygiadau yn y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau CGM, cynnydd a datblygiad y cwrs Astudiaethau Crefyddol TGAU newydd. Mae'r PYCAG/PYCCGM wedi dechrau ystyried y canllawiau presennol ar gyfer ysgrifennu adroddiadau blynyddol a newidiadau posib y bydd eu hangen o ganlyniad i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Rhoddir adborth a chynhelir trafodaeth am gyfarfodydd CCYSAGC yng nghyfarfodydd y CYSAG/CYSCGM. Caiff unrhyw wybodaeth ac adnoddau perthnasol eu rhannu ag athrawon drwy -bost ac mewn cyfarfodydd AG/CGM.

**4.4 Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r CYSAG/CYSCGM**

Fel rhan o hyfforddiant aelodau, mae'r CYSAG/CYSCGM:

- wedi derbyn sesiwn ar rôl y CYSAG/CYSCGM a'u haelodau yn ystod cyfarfod tymhorol cyntaf y flwyddyn academaidd.
- wedi derbyn dogfen CCYSAGC 'Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: Llawlyfr i Aelodau CYSAG yng Nghymru' https://drive.google.com/file/d/1FbIfp8Wk5NZFUZD1BFcBpxy0r5pBkavK/view
- mae aelodau wedi cael y diweddaraf ar ddatblygiadau o fewn AG/CGM ac addoli ar y cyd drwy bwyntiau trafod a chyflwyniadau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- mae aelodau wedi'u gwahodd i fynd i gyfarfodydd CCYSAGC tymhorol
- maent wedi derbyn adborth ar y cyfarfodydd CCYSAGC a PYCAG/PYCCGM tymhorol

# Atodiad 1: Aelodaeth CYSAG 2022-2023

**Swyddogion ALl.**

Mrs. Rachel Samuel – Swyddog Cefnogi CGM CNPT
Emily Sweeney – Clerc i'r CYSAG/CYSCGM
Andrew Thomas - Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Traddodiadau ac enwadau crefyddol ac anghrefyddol - Pwyllgor A**

Y Parchedig Ganon Timothy Hewitt (Yr Eglwys yng Nghymru)
Y Parchedig Ganon Lynda Newman (Yr Eglwys yng Nghymru)
Dr Maripaz Felton (y gymuned Gatholig)
Norma Glass (y gymuned Iddewig)
Imam A Lorgat (y gymuned Fwslimaidd)
Aelod sy'n cynrychioli'r eglwysi rhyddion - gwag
Aelod ar gyfer y gymuned Hindŵaidd - gwag
Aelod o'r gymuned Sikh - gwag
Aelod o gymuned y Dyneiddwyr - gwag

Cynrychiolwyr Cymdeithasau Athrawon - Pwyllgor B

Lee Workman (Cadeirydd LLAN)
Miss Cerys Phillips (Ysgol Gymraeg Ystalyfera) aelod o'r NEU
Sarah Powell (Dŵr-y-felin) aelod o'r NEU
Fiona Shaw (Cwmtawe) aelod o'r NASUWT
Kate Evans (Llangatwg) aelod o'r NASUWT
Aelod o'r NHTU - gwag
Aelod o'r ASCL - gwag
Aelod o UCAC - gwag (Rachel Samuel dros dro)

**Awdurdod Lleol - Pwyllgor C**

Y Cyng. Nia Jenkins (Cadeirydd y CYSAG/CYSCGM)
Y Cyng. Wayne Carpenter (Is-gadeirydd y CYSAG/CYSCGM)
Y Cyng. Jeff Jones
Y Cyng. Rhidian Mizen
Y Cyng. Rebecca Phillips
Y Cyng. Peter Rees
Y Cyng. Dave Whitelock

**Aelodau Cyfetholedig**

Ailee Sotero (Cwm Brombil) NEU
Jen Hamilton-Jones

## Atodiad 2: Amserlen Cyfarfodydd ac Eitemau'r Agenda

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn bersonol yng Nghanolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan, Baglan.

17 Hydref 2023

1. Croeso ac ymddiheuriadau
2. Cyflwyniad gan Bismha Afzal (Cydlynydd Ysgolion Addysgu yn erbyn Islamoffobia)
3. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd
4. Cofnodion o gyfarfod y CYSAG ar 13.06.2023
5. Materion yn codi
6. Adroddiad Blynyddol y CYSAG, 2022-23
7. Canlyniadau arholiadau allanol a'r camau nesaf
8. Cefnogaeth i ysgolion
9. Gohebiaeth
10. UFA

27 Chwefror 2024

1. Croeso ac ymddiheuriadau
2. Cyflwyniad gan Klavdija Erzen (Rheolwr Rhaglen a Phrosiect, Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru).
3. Cofnodion ar gyfer cyfarfod y CYSAG/CYSCGM 17.10.23
4. Materion yn codi
5. Adroddiad Blynyddol y CYSAG/CYSCGM, 2022-23
6. Diweddariad ar Gyfansoddiad y CYS
7. Adborth o Noson Coffáu'r Holocost
8. Adroddiadau ESTYN
9. Diweddariadau ar CCYSAGC a'r PYCCGM
10. Cefnogaeth i ysgolion
11. Gohebiaeth
12. UFA

4 Mehefin 2024

1. Croeso ac ymddiheuriadau
2. Cofnodion ar gyfer cyfarfod y CYSAG/CYSCGM 22.03.23.
3. Materion yn codi
4. Adnoddau Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
5. Lle ar gyfer y CYSCGM ar wefan y cyngor
6. Diweddariadau ar TGAU - y presennol ac ar ôl 2025
7. Adroddiadau ESTYN
8. Diweddariadau ar CCYSAGC a'r PYCCGM
9. Cefnogaeth i ysgolion
10. Gohebiaeth
11. UFA

## ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD BLYNYDDOL

CAIFF COPÏAU ELECTRONIG EU HANFON AT Y CYRFF PERTHNASOL.

- Aelodau o CYSAG/CYSCGM Castell-nedd Port Talbot
- Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes Castell-nedd Port Talbot
- Swyddogion Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot
- Holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot
- CCYSAGC
- Llywodraeth Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru.